# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION CYFARFOD HYDREF 2022

| | |
|---|---|
| **MATH O GYFARFOD** | **Cyfarfod Misol** |
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 19 o Hydref, 2022** |
| **AMSER** | **7.00y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Canolfan Kate Roberts** |
| **CADEIRYDD** | **Michelle Williams** |

| | |
|---|---|
| 1. | **CROESO** |
| | Nid oedd posib i'r Cadeirydd fynychu'r cyfarfod heno oherwydd ymrwymiadau eraill. Cytunodd yr Is Gadeirydd EE gymryd ei sedd am y noson. Y clerc i ymestyn cydymdeimladau'r aelodau gyda GW am ei brofedigaeth sydyn.<br><br>Yn bresennol heno roedd:<br>Elin Evans **(EE);** Huw Rowlands **(HR)**; Nerys Evans **(NE);** Jason Hunt **(JH);** Tom Ellis **(TE)**; Gwilym Thomas **(GVT)**; Aeron Maldwyn Jones **(AMJ);** ac Gillian Thomas (y Clerc). |
| 2. | **YMDDIHEURIADAU** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan**:**<br>Michelle Williams **(MW);** Gwilym Williams **(GLW)**; Arwyn Herald Roberts **(AHR).** |
| 3. | **DATGAN BUDDIANT** |
| | 6 (a) AMW arfer bod yn gymydog |
| 4. | **CADARNHAU COFNODION MEDI 2022** |
| | Adroddodd y clerc bod MW wedi cysylltu yn gofyn iddi gofnodi yn gywir nad oedd MW yn bressenol i drafod pwynt 6(d) sef:<br>• **Rhif Cais: C22/0787/24/DT** - Bryn Gro, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7HG<br><br>Cynigwyd weddill y cofnodion yn gywir gan NE gyda HR yn eilio a phawb yn cytuno |
| 5. | **MATERION YN CODI** |
| | a) **CAIS I ATGYWEIRIO HYSBYSFWRDD RHOS ISAF**<br>Rhannodd y clerc lun o gyflwr yr hysbysfwrdd blaen llaw'r cyfarfod. Cytunwyd i ofyn am adborth y sawl sydd yn atgyweirio hysbysfwrdd y Fynwent.<br><br>**b) HYSBYSFWRDD a MAINC Y FYNWENT**<br>Y fainc bellach wedi ei pheintio. Nodwyd bydd angen tynnu'r hysbysfwrdd am wythnos i ddarparu'r gwaith atgyweirio.<br><br>**c) ARWYDD CYFLYMDER GER FRON WYDYR RHOSGADFAN**<br>Adroddodd y clerc mae dim ond un enw amlwg oedd wedi ei ddarganfod ar yr arwydd. Cysylltwyd â'r cwmni a derbyniwyd ymddiheuriadau gan nad ydynt yn cynhyrchu arwyddion cyflymder rhyngweithiol bellach. Derbyniwyd argymhellion gan AMJ i gysylltu â Cholin Worth sef prif Swyddog Goleuadau Stryd y Cyngor yn gofyn am ei gymorth. |

| | |
|---|---|
| | d) **CYSODFANNAU AGEN SYLW YCHWANEGOL**<br>Gwnaethpwyd cais i'r contractwr roi sylw manwl i'r cysodfannau. Mae'n bellach mewn cyflwr gwerth chweil gyda gordyfiant wedi ei dorri yn ogystal i arbed iddynt droi'n wyrdd yn y dyfodol.<br><br>e) **MATERION WEDI EI DATRYS YN ÔL HUNANWASANAETH Y CYNGOR**<br>• Coed Yn Tyfu I Lon Ger Penlan, Rhos Isaf.<br>• Parcio Peryg Ger Bryn Bethel, Rhos Isaf.<br>• Conau Wedi Eu Gadael Ar Y Lon Wrth Menai View, Dinas.<br>• Gwter Wedi Blocio Wrth 19 Bro Wyled<br><br>f) Derbyniwyd cais gan GW am esboniad manwl sut bod allanfa Dwr Cymru yn Saron yn cael cymaint o effaith yn Ninas wrth gysidro bod y safle i fynnu'r allt - clerc i wneud ymholiadau pellach |
| 6. | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | **a) RHIF CAIS: C22/0897/24/DT - TYN Y MAES, LLANDWROG, CAERNARFON, GWYNEDD, LL54 5TL**<br>**Dilyn a Darganfod**<br>Adeiladu modurdy – Dim gwrthwynebiad<br><br>**b) Rhif Cais/App Ref: C22/0876/24/Ll - Former Reservoir, Tir Ger Pen Y Ceunant, Rhostryfan, Ll54 7lu**<br>**Dilyn a Darganfod**<br>Cais ôl-weithredol ar gyfer leoli carafán ynghyd â chreu mynedfa a thrac newydd -<br>Gwrthwynebu , Rheswm: Y fynedfa ar bwys y gyffordd ac mewn lleoliad hynod o beryg, sydd yng nghyd fynd a gwrthwynebiadau blaenorol. |
| 7. | **MATERION MISOL** |
| | **a) MYNWENT CEFNFAES**<br>Trafodwyd argymhellion oedd wedi ei dderbyn gan y contractwr sut i gadw'r chwyn dan reolaeth yn y Fynwent erbyn y tymor nesaf. Cytunodd yr aelodau mewn egwyddor bod angen sylw. Y clerc i holi am gostau.<br>Gwaith i wared a'r eiddew yn parhau.<br><br>**b) SEDD WAG PWYLLGOR Y FYNWENT**<br>MW yn flaenorol wedi datgan ei diddordeb i ail ymuno a'r Pwyllgor. Cytunodd yr aelodau.<br><br>**c) SEDD WAG RHOSTRYFAN A RHOSTRYFAN**<br>Y Clerc I wneud y trefniadau perthnasol i hysbysebu etholiad sedd Rhostryfan a bwriad cyfethol ar gyfer sedd Rhosgadfan.<br><br>**d) CAE CHWARAE RHOSTRYFAN**<br>Derbyniwyd gwyn gan un o drigolion Rhostryfan yn dilyn cael ei wahardd o'r Cau Chwarae gyda'i blentyn yn ystod oriau'r ysgol. Gofynnodd am adborth y Cyngor.<br>Adroddodd yr aelodau bod cytundeb hanesyddol yn y gymuned nad oedd y maes chwarae yn cael ei defnyddio yn ystod oriau'r Ysgol.<br>Y clerc i gysylltu â'r Brif Athrawes I argymell bod yr Ysgol yn hysbysebu.<br><br>**e) LLWYBR 151**<br>Derbyniwyd gwyn gan un o drigolion Rhostryfan bod llwybr 151 wedi gordyfu ac yn amhosib i'w gerdded.<br>Adroddodd y clerc nad yw'r llwybr hwn ar restr sylw'r Cyngor Cymuned.<br>Y clerc i ofyn am adborth y Cyngor Sir.<br><br>**f) LLWYBR WAUN BANT**<br>Yn dilyn ymholiadau pellach i'r Llywodraeth gan HR derbyniwyd ymddiheuriadau am yr oedi parhaus sy'n cael ei achosi gan broblemau yn ymwneud ag adnoddau. |

Maent wrthi'n dyrannu Arolygydd i'r achos, a gobeithir y gellir cyflawni'r ymweliad â'r safle a'r penderfyniad yn y dyfodol agos iawn.
Adroddodd NE am gwynion a phryderon oed wedi ei derbyn bod perchennog Waunbant yn hongian iâr ar y llwybr i ddenu llwynog. Cytunodd NE I rannu lluniau gyda'r clerc.
Y clerc i lythyru gyda'r perchennog yn adrodd pryderon y Cygnor.

**g) <u>EISTEDDFOD LLYN AC EIFIONYDD</u>**

Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn cais am wybodaeth pwy yw Swyddogion Pwyllgor Cronfa Llanwnda?
Y clerc i lythyru yn hysbysebu bod y gymuned yn y broses o enwebu aelodau Pwyllgor Lleol- Bydd mwy o fanylion i ddilyn yn fuan.

**h) <u>LON LLWYN ONN</u>**

Adroddodd HR bod gwaith ar y cylfat ar dir Bryn Llwyd, Lôn Llwyn Onn yn cael ei raglennu at yr ail wythnos yn Nhachwedd. Bydd Cyngor Gwynedd yn trefnu caead ar y ffordd i'w galluogi i osod dwy gylfat a chario allan gwaith clytio ble bod angen.
Byddent hefyd yn gwneud rhagor o waith ar y Lôn. E.e. gwaith clytio o flaen Golygfa. Bydd swyddog hefyd yn ymweld ar safle wythnos yma i fesur a nodi diffygion pellach .

**i) <u>LLWYBR BRYNGWYN - CYFARFOD BWRDD 6ED O HYDREF 2022</u>**

Ar gais y Cadeirydd roedd y clerc wedi llythyru a Rheolwr y Rheilffordd I atgyfnerthu cais HR I'r rheilffordd ail ystyried eu bwriad i olchi ei dwylo a'r lein.
HR i ofyn i'r Rheilffordd am ganlyniadau'r Cyfarfod.
Adroddodd HR am gwynion pellach am gyflwr y lein ar dir Gerlan - HR I ymateb yn hysbysebu bod y Cyngor yn y broses o wneud camau pendant i'w ddatrys.

j) **<u>CYNLLUN HYFFORDDIANT Y CYNGOR CYMUNED</u>**

Adroddodd y clerc o dan Adran 67 deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) mae gan y Cyngor Cymuned ddyletswydd i ystyried hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr a staff ac i gyhoeddi'r cynlluniau hyfforddiant yma.

Pwrpas y cynllun hyfforddi yw sicrhau bod Cynghorwyr a'r Clerc gyda'i gilydd yn meddu ar y wybodaeth a'r ymwybyddiaeth sydd eu hangen er mwyn i'r Cyngor weithredu'n effeithiol. Nid oes angen i bob Cynghorydd a Chlerc fod wedi derbyn yr un hyfforddiant a datblygu'r un arbenigedd.

Cytunodd yr aelodau bod y canlynol yn feysydd craidd i fynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor sgiliau a dealltwriaeth ddigonol:

- Modiwl ar gyfer Cynghorwyr newydd;
- Y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru;
- Rheolaeth ariannol a llywodraethu.

Bydd pob Cynghorydd yn cael cynnig y cyfle i fynychu cyfleoedd hyfforddi a datblygu perthnasol. Mae Un Llais Cymru yn darparu gwybodaeth yn fisol o'i gyrsiau, bydd rhain yn cael eu dosbarthu i bob aelod o'r Cyngor Cymuned. Mae cyrsiau yn cael eu cynnig ar lein ac ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Bydd y Cyngor Cymuned yn neilltuo cyllid yn flynyddol i sicrhau bod Cynghorwyr a'r Clerc yn medru mynychu cyrsiau hyfforddiant, cynadleddau a digwyddiadau'r sector.

Bydd y Clerc yn gyfrifol am:-

- gylchredeg unrhyw wybodaeth am gyrsiau addas ac yn awgrymu cyrsiau perthnasol i aelodau'r Cyngor
- gadw cofnod o'r cyrsiau a fynychwyd yn flynyddol

Cynllun:

- Cynghorwyr newydd – i fynychu modiwl Cynghorwyr newydd Un Llais Cymru
- Pob Cynghorydd - i dderbyn hyfforddiant y Cod Ymddygiad gan y clerc.
- Anogaeth i bob Cynghorydd i fynychu cyrsiau priodol Un Llais Cymru
- Is-gadeirydd newydd y Cyngor– modiwl Sgiliau Cadeirio Un Llais Cymru
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd newydd Pwyllgor Cyllid, Polisi a Rheolaethol - Modiwl 6 ac 21 Cyllid Llywodraeth Leol Un Llais Cymru
- Clerc - Hyfforddiant Parhaus Proffesiynol

Clerc Cyngor Cymuned Llanwda Community Council Clerk
Ffon / Tel: 07979 438 307
1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP
E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk

| 8. | **ADRODDIADAU** |
|---|---|

**HR –**

- **GÔR YRRU WRTH YR YSGOL YN RHOSTRYFAN -**
  Wedi llythyru a'r Pennaeth sydd wedi ei roi ar FB yr ysgol

- **GÔR YRRU CYFFREDINOL RHOSTRYFAN-**
  Mesuriadau wedi eu cwblhau ond dim yn ddigonol i wneud dim pellach.

- **LORIAU Y CHWAREL –**
  Cwynion wedi eu derbyn eu bod yn gyrru ac yn brecio yn galed, hefyd ddim yn cadw i'r cylch.
  Huw am lythyru a'r chwarel.

| 9. | **MATERION ARIANNOL** |
|---|---|

**a) CYSONIAD**
Cymeradwywyd y cysoniad gyda phawb yn cytuno ei gywirdeb.

**b) DATGANIADAU BANC**

| **CYFRIF CYFREDOL 29 Awst I 28 Fedi 2022** | |
|---|---|
| Balans Agoriadol | 12.076.58 |
| Talu i mewn | 14.650.00 |
| Taliadau Allan | 4,756.90 |
| Balans Cau | 21,969.68 |

| **CYFRIF CADW 28 Fehefin i 29Awst 2022** | |
|---|---|
| Balans Agoriadol | 63,351.41 |
| Talu i mewn | 15.71 |
| Taliadau Allan | 0.00 |
| Balans Cau | 63,367.12 |

c) **TALIADAU I'W CYMERADWYO**

| | | |
|---|---|---|
| G. Thomas | **101671** | £606.50 |
| Cyngor Gwynedd | **101672** | £321.00 |
| Pwyllgor y Cae Chwarae | **101673** | £600.00 |
| North Wales Fencing | **101674** | £3,393.60 |

| 10. | **GOHEBIAETH** |
|---|---|

**a) FFLIW ADAR A CHEIDWAID DOFEDNOD LLEOL**

b) **EIN LLWYBRAU EIN DYFODOL – CYMDEITHAS Y CERDDWYR** - www.ramblers.org.uk/ourpathsourfuture

**c) GRŴP CYSWLLT MOEL TRYFAN**
Derbyniwyd gohebiaeth yn adrodd gobaith i ail ddechrau cyfarfodydd y Grŵp Cyswllt erbyn mis Rhagfyr.
Y clerc i yrru ymateb yn gofyn iddynt gyhoeddi dyddiad ar y siawns cyntaf.

d) **CANLLAWIAU AROLYGON CYMUNEDOL**

| | |
|---|---|
| 11. | **MATERION LLEOL / AELODAU** |
| | a) Y Clerc I holi am ddefnydd o Ysgol Felinwnda I gynnal cyfarfodydd ar brydau.<br><br>b) HR i baratoi llythyr ar ran y Cyngor I Ambiwlans Awyr Cymru yn eu hysbysebu am bryderon y Cyngor. Y clerc i'w yrru ymlaen.<br><br>c) JH - Twll wedi agor ar Bont Wernlas Ddu - y clerc i adrodd i'r Cyngor Sir |
| 12. | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – 16eg O DACHWEDD 2022 – CANOLFAN KATE ROBERTS AM 7 Y.H** |
| | **<u>MATERION I'W CADW MEWN SYLW</u>**<br><br>a) Gwersylla Ar Y Tir Comin - View Point Rhosgadfan<br>b) Llifogydd ger Pont Wernlas Ddu<br>c) Atgyweirio Twmpathau Cyflymder Rhostryfan a Rhosgadfan – HR am gysylltu<br>d) Gridiau Gwartheg Diffygiol a clicker ar y giatiau – HR am ddilyn<br>e) Mynwent Cefnfaes – Archebu Tir |